



Ehangu'r Senedd

12 Ebrill 2022

Cais am wybodaeth.

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 25 Mawrth, pan wnaethoch ofyn:

In relation to increasing the size of the Senedd:

- 1. Can you please provide by how many?*
- 2. Who is going to pay for the extra members?*
- 3. The reason for it?*
- 4. Why using proportional representation (PR) considering wherever it has been used has failed the people?*

- 1. Can you please provide by how many?*

Nid oes gennym unrhyw wybodaeth wedi'i chofnodi mewn perthynas â'ch cais.

Nid wnaed unrhyw benderfyniadau ynghylch a ddylai'r Senedd gynyddu o ran maint ac o faint.

Fe wnaeth y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad (yn ei adroddiad, "**Senedd sy'n Gweithio i Gymru**", a gyhoeddwyd yn 2017) argymhell yn flaenorol cynyddu maint y Senedd i rhwng 80 a 90 o Aelodau. Fe wnaeth y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd (yn ei adroddiad, "**Diwygio'r Senedd: Y Camau Nesaf**", a gyhoeddwyd yn 2020), gytuno ag argymhelliad y Panel Arbenigol.

- 2. Who is going to pay for the extra members?*

Caiff Aelodau o'r Senedd eu talu o gyllideb Comisiwn y Senedd, gyda thâl a lwfansau'r Aelodau'n cael eu pennu gan Fwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd fel rhan o'i **Benderfyniad**. Mae cyllideb ddrafft flynyddol Comisiwn y Senedd yn destun gwaith craffu gan y **Pwyllgor Cyllid** a phleidlais ynghylch a ddylai'r Senedd gyfan ei chymeradwyo.

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6224

E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

3. *The reason for it?*

Mae **adroddiad** y Panel Arbenigol a'r Pwyllgor ar **Ddiwygio Etholiadol y Senedd** yn nodi eu rhesymau dros argymhell cynyddu maint y Senedd.

4. *Why using proportional representation (PR) considering wherever it has been used has failed the people?*

Nid oes gennym unrhyw wybodaeth wedi'i chofnodi mewn perthynas â'ch cais.

Sefydlwyd y [Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd](#) ar 6 Hydref 2021 i:

- ystyried y casgliadau a wnaed yn flaenorol gan y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd yn y Bumed Senedd fel y nodir yn ei adroddiad [Diwygio'r Senedd: Y camau nesaf](#) a osodwyd gerbron y Senedd ar 10 Medi 2020; ac
- erbyn 31 Mai 2022, gwneud argymhellion o ran cyfarwyddiadau polisi ar gyfer Bil Llywodraeth Cymru i Ddiwygio'r Senedd.

Mae'r Pwyllgor yn ystyried pob agwedd ar ddiwygio'r Senedd, gan gynnwys maint y Senedd, y system bleidleisio, a mesurau i annog amrywiaeth o ran ei haelodaeth. Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn nodi bod yn rhaid iddo gyhoeddi ei adroddiad erbyn 31 Mai 2022 a chyflwyno argymhellion i'r Llywodraeth eu hystyried. Yna gall y Llywodraeth gyflwyno Bil yn cynnig diwygiadau gerbron y Senedd, a fydd yn destun proses ddeddfwriaethol y Senedd. Mae Deddf Cymru 2017 yn gofyn am 'uwch-fwyafrif' ar gyfer unrhyw Filiau sy'n ymdrin â diwygiadau i'r Senedd. h.y. ni fyddai unrhyw ddeddfwriaeth arfaethedig yn cael ei phasio oni bai bod dwy ran o dair o gyfanswm yr Aelodau (40 allan o 60) yn pleidleisio o'i phlaidd yng nghyfnod olaf y broses ddeddfwriaethol.

Fel y crybwyllwyd uchod, gwerthusodd adroddiad y Panel Arbenigol systemau etholiadol amrywiol, gan nodi ei argymhellion ar gyfer systemau etholiadol yn y dyfodol a'r rhesymau pam. Fe wnaeth y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd yn y Bumed Senedd hefyd archwilio'r egwyddorion a'r systemau etholiadol a argymhellwyd gan y Panel Arbenigol, gan ddod i gasgliadau ar y system ar gyfer ethol Aelodau o'r Senedd.

Gan fod y wybodaeth hon eisoes ar gael, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n eithrio gwybodaeth sydd ar gael yn rhesymol drwy ddulliau eraill.

Yn gywir

Buddug Saer
Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth
Senedd Cymru

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Wedd Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnlol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnlol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru neu'n ysgrifenedig i

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN